

# Diolch yn fawr a hwyl fawr i ti Shane!

Ar ran cymuned Dolwyddelan fe hoffem ni ddiolch i Shane a'i weithwyr am y gwaith caled a wnaethon nhw yn cadw'r **Gwydyr** i fynd.

Mae hi'n drueni colli Shane a'r cyfleuster cymunedol sydd wedi bod yn le cyfarfod yn y pentref i gymaint ohonom ni!

Fe hoffem ni ddymuno'n dda i Shane yn y dyfodol ac rydym ni'n gwir obeithio y cawn ni rhywun gystal ag o yn y Gwydyr er gwaetha'r safon uchel y mae o wedi gosod!

## Ailgylchu

Helpwch ni i wneud ein rhan ar gyfer yr amgylchedd a gwneud y gorau o'r cyfleusterau ailgylchu sydd gennym ni yma yn Nolwyddelan!

Yn anffodus mae dipyn o broblem 'sbwriel bellach o gwmpas **Ysgol Dolwyddelan** a'r parc. Mae yna ddigon o finiau yn y pentref, felly os gwelwch chi'n dda, peidiwch â gadael eich 'sbwriel chi i'r plantos ei godi!

Cofiwch: Fe allwch chi fynd i nôl bagiau gweddillion bwyd o siop **SPAR**

Mae yna finiau llwyd bychain ar gyfer bwyd hefyd - mae biniau bwyd du a gwyrdd ar gyfer y tu allan a bagiau gwyn ar gyfer ailgylchu batris ar gael yn y **Pafiliwn Cymunedol** os oes arnoch chi eu hangen nhw.

## Hurio'r Pafiliwn

## Ar werth yn y pafiliwn:

|                | Busnes/<br>Masnachol | Elusen/<br>Lleol | Aelodau |
|----------------|----------------------|------------------|---------|
| Bob Awr        | £25                  | £12.50           | £10     |
| Hanner Diwrnod | £50                  | £25              | £15     |
| Diwrnod Llawn  | £75                  | £40              | £30     |

**Cardiau cyfarch  
Darluniau  
Tafleuni am deithiau  
cerdded  
Cacennau blasus Jane  
Diodydd poeth**